

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 153 Rhif 45 Tachwedd 5, 2020 50c.

TACLO'R COVID:

Profiadau Eglwysi Dwyrain Morgannwg

Yn y cyfarfod rhithiol o bwyllgor gwaith Cyfundeb Dwyrain Morgannwg a gynhaliwyd nos Fercher 14 Hydref, gwahoddwyd cynrychiolwyr yr eglwysi i adrodd sut yr aed ati i ymdopi dros gyfnod y clo mawr, a hefyd – o ganol mis Gorffennaf ymlaen – sut a phryd y dychwelodd y mwyafrif i gynnal oedfaon yn y capel unwaith yn rhagor. Prif ddiben codi'r mater oedd i rannu 'arferion da' y gallai eraill ystyried eu mabwysiadu, a gweld hefyd a oedd modd cynnig cefnogaeth i'r eglwysi llai eu maint a'u hadnoddau o fewn y Cyfundeb i'w galluogi i oroesi'r pandemig.

Siom?

O wrando ar yr wyth cyflwyniad, siomwyd pawb ar yr ochr orau gyda brwdfrydedd y cyfranwyr wrth iddynt adrodd am eu hymateb i COVID-19, a chawsom ein rhyfeddu o weld pa mor egniol a dyfeisgar fu'r eglwysi wrth wynebu'r her fwyaf iddynt ei phrofi ers cenedlaethau. Mwy rhyfeddol fyth, efallai, oedd dysgu am yr amrywiaeth helaeth o 'lwyfannau' amgen a fabwysiadwyd gan yr eglwysi i gyflwyno neges yr Efengyl ac i gynnal fflam y ffydd. Dros nos, bron, daeth enwau megis Facebook, YouTube a Zoom yn rhan o eirfa bob dydd gweinidogion, swyddogion, diaconiaid ac ymddiriedolwyr yr eglwysi; yna, ymhen ychydig wythnosau'n unig, roedd nifer ohonynt yn ddigon hyderus i fynegi barn

ynghlŷn â pha 'lwyfan' fyddai'r mwyaf effeithiol at wahanol ddibenion.

Cyfyngau

Ymhlith y gweithgareddau niferus a grybwyllwyd ganddynt, roedd yn galonogol iawn deall bod pob eglwys yn ddiethriad wedi llwyddo i gyflwyno oedfaon rhithiol yn rheolaidd yn ystod cyfnod y clo mawr. Roedd rhai wedi sefydlu sianel YouTube i ddarlledu oedfaon fideo ar fore Sul, ac ambell un yn cynnig cyfle i'w haelodau gymdeithasu dros Zoom yn syth wedi'r oedfa. Manteisiodd eglwys arall ar Zoom i gynnal cyrddau gweddi ac astudiaethau Beiblaidd yn ystod yr wythnos. I raddau helaeth, roedd natur y gweithgareddau yn adlewyrchu adnoddau, arbenigedd ac ethos yr achosion unigol, nifer a demograffeg eu cynulleidfa, ynghyd â maint a hygyrchedd yr adeiladau.

Oedfaon torfol

Er bod mwyafrif yr eglwysi wedi dychwelyd i'w haddoldai rhwng dechrau Medi a chanol mis Hydref (cynhaliwyd cyfarfod y Cyfundeb rai dyddiau cyn bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi y byddai clo tymor byr cenedlaethol o 23 Hydref ymlaen), roedd un neu ddau o eithriadau a oedd yn parhau i gynnal eu hoedfaon yn rhithiol gan aros nes y câi'r cyfyngiadau eu llacio ymhellach. Ond ar waetha'r cyfyngiadau a osodwyd arnynt, roedd y cynulleidfaoedd a fentrodd yn ôl i'w capeli yn hynod o werthfawrogol o'r cyfle i gydaddoli unwaith eto, a chlod i'r eglwysi hynny oedd iddynt hefyd ofalu darparu recordiad neu fersiwn digidol i'r aelodau hynny oedd yn methu mynychu'r cwrdd.

Bugeilio

Da oedd deall bod pob un o'r eglwysi wedi manteisio ar eu rhwydwaith bugeilio arferol i gefnogi'r rhai oedd yn gaeth i'w cartrefi, a bod nifer hefyd wedi cadw mewn cysylltiad â'u haelodau dros y cyfnod trwy lunio a dosbarthu taflenni, myfyrdodau neu gylchlythyrau'n wythnosol drwy gyfrwng e-bost, gweplyfr a'r post cyffredin i'r aelodau oedd heb gyswllt i'r we. Trwy gyfrwng ymgyrch yn eu cylchlythyr a'u gwefan, llwyddodd un eglwys i godi miloedd o bunnoedd dros gyfnod byr iawn tuag at elusennau megis y Banc Bwyd Lleol, at Apêl y Llifogydd yn Rhondda Cynon Taf a Chymorth Cristnogol.

Hyblygrwydd

Roedd sawl un o'r eglwysi wedi llwyddo i gynnal ysgol Sul drwy'r cyfnod clo dros lwyfan Zoom, ac eglwysi eraill wedi defnyddio'r un cyfrwng i gynnal pwyllgorau diaconaid ac i 'gwrdd' yn gymdeithasol. Diddorol hefyd oedd penderfyniad un eglwys i gynnal gweithgarwch i'w pobl ifanc yn y Deml Heddwch oedd yn fwy addas na'r capel. Penderfynodd un eglwys dychwelyd i'w hen gapel wedi i hwnnw gau ei ddrysau am y tro olaf fisoedd lawer cyn y pandemig, ond gwelwyd ei fanteision gan fod mwy o ofod ynddo i gynnal oedfaon yn ddiogel nag yn y ganolfan gymunedol oedd yn gartref newydd i'r achos.



Prif werth y cyflwyniadau hyn, yn ddi-os, oedd iddynt arddangos hyblygrwydd a ffydd pob un o'r eglwysi dros y cyfnod clo, a hefyd yn ystod y cyfnod yn dilyn llacio'r cyfyngiadau; mae lle i fod yn obeithiol iawn y byddant yn parhau i gynnal yr elfennau hynny sydd wedi derbyn gwerthfawrogiad ymhlith eu haelodau ac eraill a gafodd fendith o'u hymweliadau rhithiol â'r eglwysi. Y wers bwysicaf a ddysgwyd oedd bod angen gweld sut mae modd i'r Cyfundeb gefnogi'r eglwysi llai o faint o fewn yr ardal sydd heb yr adnoddau i gynnal eu hachosion, os bydd y pandemig yn parhau am fisoedd lawer eto.

Gwilym Huws



Vavator Powell, 1617–70

Pregethwr, diwinydd Piwritanaidd ac awdur.

Y mis Hydref hwn yr ydym yn cofio 350 o flynyddoedd ers marw un o gymeriadau mawr hanes Piwritaniaeth yng Nghymru sef Vavator Powell. Dyma fraslun o'r fywyd.

Saif Cnwclas ddwy filltir o Drefyclo, Maesyfed, ar y ffin gyda sir Amwythig ac yno y ganwyd Vavator Powell, mewn tafarn. Cymraeg oedd iaith yr ardal ar y pryd, yn ogystal â rhannau o siroedd Henffordd, Amwythig a Chaerloyw. Perchennog tir oedd ei dad, Richard Powell, a hanai teulu ei fam, Penelope Vavator, o'r Drenwydd. Treuliodd Vavator Powell beth amser fel ysgolfeistr yng Nghlun ac yno y cafodd dröedigaeth. Nid digwyddiad sydyn ydoedd ond datblygiad tros gyfnod. Dechreuodd gael ei ddwysbigio am ei bechod wrth gael ei geryddu gan Biwritan am wyllo pêl-droed ar y Sul.

Dod i ffydd

Yna darllenodd lyfr Richard Sibbes, *The Bruised Reede*, a'i cyffyrddodd i'r byw, ac effeithiodd pregethu Walter Cradoc yn drwm arno'n ogystal. Rhwng y cwbl daeth i gredu yn yr Iesu fel Gwaredwr ac ymunodd â'r Piwritaniaid oedd yn cyfarfod yn Brompten Brian. Fe'i llanwyd ag awch i efengylu a chynhaliodd ymgyrch bregethu yng ngorllewin sir Henffordd rhwng 1639 a 1642. Pan gychwynnodd y rhyfel cartref mudodd i Lundain a bu'n ficer Dartford yng Nghaint rhwng 1644 a 1646. Dychwelodd i Gymru wedi iddo gael ei enwi fel pregethwr gan Bwyllgor y Gweinidogion Llwm ar daâl o £100 y flwyddyn.

Milflwyddwr

Datblygodd yn ffigur dylanwadol o fewn y mudiad Piwritanaidd, ac arwydd o hyn yw iddo bregethu i Thomas Foot, Arglwydd Faer Llundain, ym 1649, a gerbron Tŷ'r Cyffredin y flwyddyn ddilynol. Fe'i hapwyntiwyd yn gymeradwywr o dan Ddeddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru (1650) ac yr oedd ef, ymhlith eraill, yn gyfrifol am drefnu pregethwyr teithiol. Prif amcan ei fywyd oedd cyhoeddi gair Duw i'w gyd-ddynion er eu hiachawdwriaeth. Yr oedd hefyd yn filflwyddwr a gredai'n gydwybodol fod

ailldyfodiad yr Arglwydd Iesu ar fin digwydd ac y byddai'n llywodraethu'r ddaear yn bersonol. Cefnogai hefyd Blaidd y Bumed Frenhiniaeth a seiliai eu syniadaeth ar lyfr Daniel lle y cyfeirir at bedair brenhiniaeth, sef Asyria, Persia, Groeg a Rhufain. Credent fod y bedwaredd frenhiniaeth wedi dod i ben pan ddiennyddiwyd y Brenin Siarl, a'r nesaf i deyrnasu fyddai Crist. I baratoi ar gyfer ei ddyfodiad roedd yn rhaid i'r saint lywodraethu. Galwodd Oliver Cromwell senedd at ei gilydd yn Llundain a enwebwyd gan yr eglwys, ond penderfynodd mai camgymeriad oedd yr abrawf ac fe'i diddymwyd.

Oliver Cromwell

Cymerodd Cromwell y teitl Arglwydd Amddiffynnydd, ond anghytunai Vavator Powell yn chwyrn â hyn a dechreuodd wrthwynebu Cromwell. Pregethodd yn ffyrnig yn ei erbyn yn Christchurch gan ei gyhuddo o geisio cymryd lle Crist, ac fe'i carcharwyd ym 1653. Wedi ychydig ddyddiau fe'i rhyddhawyd a ffodd i Landdewi Brefi i ddechrau achos yn erbyn y wladwriaeth, ond yr oedd llygaid yr awdurdodau arno. Fel rhan o'r gwrthwynebiad trefnodd ddeiseb yn erbyn y Senedd, sef 'A

Word for God' a lofnodwyd gan 322 o bobl ac a gyflwynwyd ym 1655. O ganlyniad i'r cythrwfl hwn fe bellhaodd Vavator Powell oddi wrth ei gyd-Biwritaniaid a'r awdurdodau.

Yn y carchar

Yn y blynyddoedd yn dilyn adferiad y Brenin Siarl ym 1660 carcharwyd Vavator Powell lawer tro oherwydd ei safbwyntiau, a hynny yn Amwythig, yn y Ffilyd, Llundain, ac yng nghastell Southsea. Ysgrifennodd nifer o lyfrau, gan gynnwys *Common Prayer-Book no Divine Service* (1660) a *The Bird in the Cage Chirping*, (1661). Bu'n briod ddwywaith. Ei wraig gyntaf oedd Joan Quarrell, gweddw'r masnachwr Paul Quarrell o Lanandras, a'r ail oedd Katherine, pumed merch Gilbert Gerard, Caer. Nid oedd ganddo blant. Bu farw wedi salwch poenus ar 27 Hydref 1670, yn 53 oed, a chladdwyd ei weddillion yng ngladdfa enwog Bunhill Fields, Llundain. Gwaetha'r modd, nid oes gweddillion o'i garreg fedd yno bellach o ganlyniad i ddatblygiadau.



Cerrig beddi ym mynwent Bunhill.

Ar y Dydd Hwn: Tachwedd

2 Tachwedd

Bu farw James Hughes, 'Iago Trichrug', (1779–1844), gweinidog cyntaf Eglwys Jewin Llundain (MC), esboniwr Beiblaidd ac emynydd. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Bunhill Fields, Llundain.

3 Tachwedd

Gŵyl marw Santes Gwenffrewi, c. 6ed ganrif.

3 Tachwedd

Glaniodd John Eliot (1604–90), Apostol i frodorion America, gweinidog a chenhadwr, yn Boston, Unol Daleithiau ym 1631.

4 Tachwedd

Bu farw Esther Lewis 1887–1958, cenhades yn ysbyty Caerfyrddin a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent Cymer.

5 Tachwedd

Ordeiniwyd T. Glyn Thomas, (1905–73) gweinidog a phregethwr poblogaidd gan eglwys Gymraeg Barret's Grove, Stoke Newington, gogledd Llundain, ym 1936.

5 Tachwedd

1813, bu farw Thomas Jones o Gaer, (1737–1813), Cristion a chymwynaswr claddwyd ym mynwent capel Queen Street, Caer.

6 Tachwedd

Bu farw George Williams (1821–1905), sylfaenydd yr YMCA (Young Men's Christian Association).

8 Tachwedd

Ganed a bu farw William Rees, 'Gwilym Hiraethog', (1802–83) ar y dyddiad hwn. Gweinidog (A), llenor, golygydd ac arweinydd cymdeithasol.



Claddwyd ei weddillion ym mynwent Smithdown Road, Lerpwl.

8 Tachwedd

Bu farw John Duns Scotus (c.1265–1308) Mynach Ffransisgaid, meddyliwr a diwinydd Catholig.

10 Tachwedd

John Roberts, 'J.R. Conwy', (1804–84), gweinidog (A), golygydd ac awdur.

10 Tachwedd

Ganwyd Granville Sharp (1735–1813), awdur ac ymgyrchydd i ddiddymu caethwasiaeth

12 Tachwedd

Ganwyd Sarah (Sally) Charles, (1753–1814) Cristion a gwraig fusnes.

12 Tachwedd

Ganed William Thomas Davies, 'Pennar', (1911–96), prifathro, ysgolhaig, bardd a chyfrinydd yn Aberpennar.

12 Tachwedd

Ganwyd Edward Chad Varah 1911–2007, offeiriad a sefydlydd y Samariaid yn Barton-upon-Humber, Swydd Lincoln. Bu farw mewn ysbyty yn Basingstoke ar 8 Tachwedd.

(Parhad wythnos nesaf)

Barn Annibynnol

'Ddim eleni ond beth am y dyfodol?'

Mae'r dydd yn byrhau. Rydym wedi troi'r cloc yn ôl. Mae'r mins peis ar werth yn yr archfarchnad, ac yn ôl trefn arferol yr amser hwn o'r flwyddyn byddai dynion y pentref wedi bod yn adeiladu coelcerth ar dir y castell, yn barod i ddathlu Guto Ffowcs – ond ddim eleni. Dechrau mis Mawrth roedd fy nyddiadur yn llawn o sioeau, beirniadu a chynadleddau, heb sôn am y capel ar y Sul – ond ddim eleni. Mewn byr amser diflannodd y cyfan, a gwacaodd fy nyddiadur. Bu hynny mi wn yn brofiad cyfarwydd i bawb.

Cymdeithasu

Rydym wedi colli llawer, yn enwedig y cymdeithasu. Wrth baratoi i ddathlu Guto Ffowcs, byddai pobl a phlant y pentref am wythnosau yn casglu pethau i'r goelcerth. Dwi ddim yn meddwl fod unrhyw un yn meddwl am gefndir y dathliad, ond yn mwynhau'r arferiad! Wedi nosi, byddai'r tân gwyllt yn denu pobl o gylich eang a phawb yn mwynhau'r adloniant, y bwyd a'r diod, ac yn bennaf oll y cymdeithasu – ond ddim eleni. Ond nid dyna'r diwedd. Yn sgil y Covid daeth ffordd arall o gymdeithasu i'r golwg fel y gwn i o brofiad personol. Cymdogion yn helpu gyda'r siopa, gofalu am fanion bethau personol, a rydym ni, fel mewn llawer man arall wedi dod i adnabod ein gilydd yn well yn y cylch bach rwy'n byw ynddi.

Cymoni

Gyda'r cloi – ac rwy'n siŵr o'i herwydd – bu'r ardd yn daclusach, y tŷ'n lanach, a llawer o bapur wedi ei waredu. Yn aml gofynnais i mi fy hun, 'Pam cedwais ti hwn?', ond yr un pryd daeth atgofion o'r bobl a'r llefydd bŵm yn ymweld â hwy dros y blynyddoedd.

William Barclay

Ymysg un o'r hen ffeiliau daeth atgof o gynhadledd yn Aberystwyth, pan oeddwn yn fy arddegau. Cefais gyfle i fynd yno gan Gyfundeb Cynffig Nedd, sydd bellach ddim yn fod. Dwi ddim yn cofio dim am y gynhadledd ond am un peth – grŵp ohonom fel pobl ifanc yn cwrdd â William Barclay yn un o ystafelloedd cyffredin y neuadd breswyl. Cyfarfod anffurfiol, siarad trwyddi draw â'r gŵr enwog hynaws hwn. Un a adawodd argraff ddofn ar lawer trwy ei lyfrau, a'r prynhawn hwnnw, gadawodd argraff arnaf i, a llawer un arall o'r cwmni. Atgofion melys o brynawn arbennig yn Aberystwyth.



Yr Efengyl ar led

Yn sgil yr atgof buais yn cydgerdded ag ef rwy Lyfr yr Actau y dyddiau diwethaf hyn a sylweddoli unwaith eto cymaint sy'n gyfarwydd yn hanes yr eglwys gynnar i'r hyn rydym ni'n ei brofi heddiw. Er bob cymwynas a chymorth dderbyniwn y dyddiau hyn, byd o gyfaddawdu, o ragrith, o gwmpo mas yw'n byd ni o hyd. Ond trwy'r cyfan gwelwn Efengyl Crist ar led, yn lledaenu mewn ffyrdd newydd annisgwyl. Ydyn ni, gapelwyr selog, wedi bod yn rhy gyfarwydd, rhy gartrefol â'n ffyrdd o addoli? Da yw gallu ymgymryd â'r dechnoleg newydd a chydaddoli trwy'r cyfryngau gwahanol.

Rhyfedd yw

Mae'n dda gallu cofio a throi at ambell emyn. Yn hwyr un nos, cyn mynd i'm gwely es am dro i'r ardd, edrych i fyny a gweld yr awyr yn disgleirio, ei lond o sêr – bychain i'm golwg i – yma ar y ddaear ond yn rhan o fydysawd anferth ein Creawdwr. Daeth geiriau emyn Evan Griffiths i'm cof, 'Mae'r nefoedd faith uwchben yn datgan mawredd Duw, mae'r haul a'r lloer a'r sêr i gyd yn dweud mai rhyfedd yw ...' Ganwyd Evan Griffiths yn Gelliheblig, yn un o ddau dŷ ar lethr Mynydd Llety Brongu, y fferm lle'm codwyd. Aeth dwy ganrif heibio, a finnau nawr yn byw ond ryw bum milltir o'r fferm. Er pellter amser a thir, gwelais yr un sêr ag Evan Griffiths, a sylweddoli o'r newydd nad yw'r gwirionedd wedi newid.

Mae'r clo'n parhau, a phwy a wŷr, mae'n bosib bydd yn ein caethiwo dros y gaef, ond mae 'na obaith. Nid y firws sy'n teyrnasu. 'Edrychwn i fyny, deued tywyllwch, deued nos, os daw heddwch o unlle daw o haeddiant gwaed y Groes.' Diolchwn ac ymddiriedwn yn yr Iesu. Mae'n gorffwysfa ynddo Ef. Diolch Iddo.

Eurwen Richards

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Geiriau Gweddi

Ysgrifennwyd yr emyn newydd hwn ar gychwyn cyfnod y Clo Mawr. Gellir ei ganu ar y dôn 'Ballerma', rhif 530 yng Nghaneuon Ffydd.



Mewn geiriau gweddi gallwn ni Lawrlwytho ofnau'r dydd,
Eu symud 'mlaen i ofal Un
A all gryfhau ein ffydd.

Mewn geiriau gweddi gallwn ni
Gael teimlo cwmni cu.
Daw hyder 'nôl wrth rannu'r baich
A derbyn oddi fry.

Mewn geiriau gweddi gallwn ni
Roi diolch mawr i Ti
Am arwain cariad 'dannwyl blant
I mewn i'n bywyd ni.

Margaret Wynne Ellis, Trefor.

Rhown ei le teilwng i'r emyn mewn oedfa, ond ...

Ym mis Ionawr eleni, yn unol â hen arfer anfonodd y Parchedig Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, lythyr Blwyddyn Newydd at eglwysi'r Undeb. Ymhlith ei gyfarchion estynnodd her, sef i bob eglwys arloesi trwy wneud un peth newydd a gwahanol. Yn ôl Mr Rees hyn sy raid neu farw.

Gorsedd y dôn

Mewn ymateb anfonais lythyr a gyhoeddwyd yn *Y Tyst*. Byrdwn fy sylwadau oedd y dylem, wrth arloesi, ganu llai ar emynau a darllen mwy arnynt; gall hyn olygu canu llai o emynau. Y gwir yw doeddwn i ddim ar y pryd nac yn awr chwaith yn credu y byddai'r mwyafrif o gynulleidfa oedd Cymru (o bob enwad), yn rhoi ystyriaeth i fy awgrym heb sôn am ei weithredu. Am ryw reswm cythreulig aethom yn eilunaddolwyr wrth orsedd y dôn – rhaid gwneud sŵn, ar draul darllen a meddwl yn ddwys am neges y geiriau.

Beth yw emyn?

Ystyriwch beth yw emyn. Onid unigolyn yn rhannu meddyliau ar lawer agwedd ar ein ffydd? Onid hynny hefyd yw pregeth? Pam felly, yn ôl hen arfer, roi hanner awr i'r bregeth a dwy neu dair munud i'r emyn? O ble daeth y patrwm caethiws o gael pedwar emyn mewn oedfa?

Ystyriwch petai'r emynwyr yn bresennol yn y cnawd yn yr oedfa. Y fath anghwrteisi ar eich rhan petaech yn diolch am y cyfraniad tair munud. Pam pedwar emyn? Ai am reswm 'secwlar' (nid crefyddol, bid siwr) o gael rhaniadau hwylus, emyn i gael pawb i setlo, emyn i ddilyn darlleniad i nodi bwlch rhwng y darlleniad a'r weddi, emyn i adfer y 'naws' myfyrgar wedi ymyrraeth bydol y cyhoeddiadau a'r casgliad a pharatoi at y bregeth, emyn i orffen yn daclus.

Anhyblygrwydd

Mae pawb sy'n arwain oedfaon yn gyfarwydd â'r cyfarchiad, 'Mae amlinelliad o drefn gennym, ond mae pob croeso i chi amrywio fel y mynnoch.' Faint sy'n manteisio ar y cynnig? Bron neb, yn fy mhrofiad i. Pwy felly sy'n gyfrifol am y diffyg ystywthder wrth wynebu her Dyfrig Rees? Gweinidogion a phregethwyr gwâdd (fel fi) neu ein cynulleidfaon, er iddynt ystumio parodrydd i fod yn hyblyg.

(Parhad drosodd)

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

Rhagor o'r Cyngor Hydref

Y prif faterion gafodd sylw'r Adran
Ddinasyddiaeth.

Eglwysi Dementia-gyfeillgar

Cafwyd adroddiad gan Emlyn Davies o'r
hyn sydd wedi digwydd.

1. Mae cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau
Cymraeg ar gael, ond yn aml nid yw'r
teuluoedd a effeithir gan ddementia yn
gwybod amdanynt. Adnodd
gwerthfawr iawn yw Llawlyfr yr
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac
fe fydd copïau yn cael eu dosbarthu i
holl aelodau'r Cyngor, trwy'r Undeb,
ar gyfer yr eglwysi.
2. Anogir pob eglwys i sicrhau bod un
o'u haelodau yn dilyn un o'r cyrsiau a
drefnir gan y Gymdeithas Dementia.
3. Derbyniodd Eglwys Bresbyteriaidd
Cymru grant sylweddol gan CWM, er
mwyn sefydlu 'Cynllun Golud'.
Cychwynwyd trafodaeth ar y
posibilrwydd o gyd-weithio, ond araf
mae pethau'n symud.
O.N. Erbyn i'r Cyngor llawn gwrdd
roedd yn dda clywed bod cytundeb
wedi ei sicrhau ar gyfer cydweithio, a
bydd Emlyn ar bwyllgor lliwio'r
Cynllun.

**Gweithgor Economi Bywyd a
Newid Hinsawdd**

Bu Cadeirydd y Gweithgor, Dr Fiona
Gannon, yn nodi'r camau a gymerwyd
hyd yma.

1. Addasu logo Bywyd i Bawb.
2. Cyfres o awgrymiadau dyddiol ar sut i
ofalu am y cread ar y wefan dros y
Grawys.
3. Cyfieithu ac addasu llyfryn y
Gynghrair
Gynulleidfaol,
Abundant Life.
4. Bwydo i mewn i
flwyddyn olaf *Y Ffordd*.
5. Papur yn gosod y
sylfeini Economaidd a
Diwinyddol.
Cyflwyniad ardderchog
i'r maes a sail i
drafodaeth gan eglwysi.
Bwriedir trefnu
gweminar i gyflwyno'r
papur.

**Materion CYTÛN****i) Sul yr Hinsawdd**


Neilltuir wythnos ar ddechrau
Tachwedd gan Lywodraeth Cymru i
ganolbwyntio ar yr hinsawdd. Anogir
yr eglwysi i gynnal Sul yr Hinsawdd
rhwng nawr a Medi 2021 ac ymuno a
chynllun eco-eglwysi Arocha. Ceir
deunydd addoli ar y we.

ii) Bil Marchnad Fewnol y DU

Mae'r Bil, sy'n mynd trwy'r Senedd,
yn cynnwys goblygiadau mawr i
ddatganoli a democratiaeth.
Gofynnwyd i Alun Lenny lunio llythyr
yn enw'r Undeb i'w anfon at nifer o'r
Arglwyddi sydd â chysylltiadau â
Chymru yn mynegi ein
gwrthwynebiad. Cymeradwywyd y
llythyr gan y Cyngor llawn.

Etifeddiaeth caethwasiaeth

Mae CWM wedi neilltuo £10M i ariannu
gwaith a phrosiectau sy'n mynd i'r afael
ag etifeddiaeth caethwasiaeth. Daw
penderfyniad gerbron yr Undeb yn galw
arnom i ystyried sut y bu i'n heglwysi
elwa o gaethwasiaeth, a lle bod hynny'n
briodol, i edifarhau a cheisio gwneud
iawn.



Nid oes rhagor rhwng
Iddewon a Groegiaid,
rhwng caeth a rhydd,
rhwng gwryw a benyw,
oherwydd un person ydych
chwi oll yng Nghrist Iesu.


(Gal 3:28)

Rhown ei le teilwng i'r emyn mewn oedfa, ond ...

(Parhad o dudalen 7)

Gwell ystyriaeth

Ond nac ofner; anfonwyd pandemig i'n
gwaredu. Wrth fynd yn ôl i'n capeli
rhaid talu sylw i
gyngorion
gwirfoddol
(canllawiau) a
gorfodol. Yn eu
plith y mae
gwaharddiad ar
ganu emynau
gan gynulleidfa.
Dylwn i fod yn
falch ond nid
felly, oherwydd
nid galw am
waharddiad llwyr ar ganu emynau wnes
i, ond apelio am well ystyriaeth i le
emyn mewn addoliad.



Yn ddiweddar, wrth drwsio papurau,
des ar draws ysgrif yn *Y Tyst* gan y
Parchedig John Lewis Jones (y
diweddar erbyn hyn) yn mynegi fy apêl
yn llawer effeithiolach na fi. Ymhlith
sawl rheswm da dros ganu yn yr oedfa
(gan nodi sawl cyfeiriad yn y Beibl), y
mae Mr Jones yn dyfynnu cyngorion
John Wesley (y pregethwr mawr sylwch,
nid ei frawd Charles sy'n dal yn enwog
am ei emynau). Dyma bum cyngor gan
John:

1. Canwch bob amser, hyd yn oed os oes
gennych groes i'w chario ...
2. Canwch yn gryf ac nid fel petaech yn
hanner cysgu ... Peidiwch ag ofni eich
llais eich hun.
3. Er hynny canwch ... yn ostyngedig.
Peidiwch â bloeddio ... uwchlaw pawb
arall ...
4. Cadwch yr amseriad cywir. Peidiwch
â bod o flaen y lleill nac ar eu hôl ...
5. Canwch yn ysbrydol, gyda golwg ar
Dduw ym mhob brawddeg ... glynwch
yn gadarn wrth ystyr yr hyn a
ganwch.

Fedra i ddim dweud yn well. Dyna fy
nadd dros arloesi trwy ddarlenn emyn yn
gyntaf ac yna ei ganu.

Neville Evans